

2016 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol
Cymru (Rhestr o Bersonau sydd
wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr)
2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

O dan adran 80(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol penodol a gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol. Mae adran 110(1) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid hefyd i GCC gadw rhestr o'r personau y mae eu cofnodion yn y gofrestr wedi eu dileu o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 110(2) a (4) o'r Ddeddf.

Yn y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr a chyhoeddi'r rhestr, neu wybodaeth benodedig o'r rhestr, yn unol ag adran 110(6) o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2016 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

Gwnaed ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 110(6) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [].

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr “GCC” (“*SCW*”) yw Gofal Cymdeithasol Cymru(2).

(1) 2016 dccc 2.

(2) Ailenwyd Cyngor Gofal Cymru yn Ofal Cymdeithasol Cymru gan adran 67(3) o'r Ddeddf.

Cynnwys y rhestr

3. Rhaid i gofnod ar y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr y mae rhaid i GCC ei chadw o dan adran 110(1) o'r Ddeddf ddangos mewn cysylltiad â phob person—

- (a) enw'r person,
- (b) y dyddiad y cafodd y person ei dynnu oddi ar y gofrestr, ac
- (c) pa un neu ba rai o'r amgylchiadau yn adran 110(2) neu (4) o'r Ddeddf a berodd i'w gofnod yn y gofrestr gael ei ddileu.

Cyhoeddi

4.—(1) Rhaid i GCC gyhoeddi ar ei wefan restr gyfredol o'r personau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr.

(2) Rhaid i GCC gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan berson i gael copi o'r rhestr neu wybodaeth benodedig o'r rhestr.

Enw

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad